

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn

Answers to Questions not reached in Plenary

15/04/2008

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Questions to the First Minister

Tynnwyd cwestiwn 11, OAQ(3)0893(FM), yn ôl.

Question 11, OAQ(3)0893(FM), withdrawn.

Encouraging the Elderly to Use ICT

Q12 Eleanor Burnham: What plans does the First Minister have to encourage elderly people to use ICT? OAQ(3)0870(FM)

The First Minister (Rhodri Morgan): Our strategy for older people introduces measures that increase and improve access to information technology. The strategy extends the engagement and participation of older people in decisions that affect them. The use of IT is an essential tool in tackling the isolation and loneliness of older people.

Annog yr Henoed i Ddefnyddio TGCh

C12 Eleanor Burnham: Pa gynlluniau sydd gan y Prif Weinidog i annog yr henoed i ddefnyddio TGCh? OAQ(3)0870(FM)

Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan): Yn ein strategaeth ar gyfer pobl hŷn, cyflwynwn fesurau i gynyddu'r defnydd o dechnoleg gwybodaeth a'i gwneud yn fwy hygrych. Mae'r strategaeth yn ehangu ymgysylltiad a chyfranogiad pobl hŷn mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Mae TG yn offer hanfodol i helpu gwneud pobl hŷn yn llai ynysig ac unig.

Community-led Care

Q13 Nick Bourne: Will the First Minister outline his plans for community-led care in the NHS in Wales? OAQ(3)0875(FM)

The First Minister: On 2 April, the Minister for Health and Social Services launched a consultation on proposals to change the structure of the NHS in Wales into the future. It contains a proposal that the responsibility and management of community services be transferred from NHS trusts to local health boards.

Gofal wedi'i Arwain gan y Gymuned

C13 Nick Bourne: A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu ei gynlluniau ar gyfer gofal wedi'i arwain gan y gymuned yn y GIG yng Nghymru? OAQ(3)0875(FM)

Y Prif Weinidog: Ar 2 Ebrill, lansiodd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ymgynghoriad ar y cynigion i newid strwythur y GIG yng Nghymru. Mae'n cynnwys cynnig i drosglwyddo'r cyfrifoldeb am wasanaethau cymunedol ac am reoli'r gwasanaethau hynny o ymddiriedolaethau'r GIG i'r byrddau iechyd lleol.

Government Estates

Q14 Darren Millar: Will the first Minister make a statement on the future of Welsh Assembly Government estates? OAQ(3)0890(FM)

Ystadau'r Llywodraeth

C14 Darren Millar: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddyfodol ystadau Llywodraeth Cynulliad Cymru? OAQ(3)0890(FM)

The First Minister: Our aim is to align our estate with Welsh Assembly Government corporate goals and objectives, moving functions and service delivery closer to the citizens of Wales. Delivering a high-performing estate and modern, efficient workspace with better public facilities remains an essential part of our strategy for the future.

The All-Wales Convention

Q15 Lesley Griffiths: Will the First Minister make a statement on progress in establishing an all-Wales convention on further powers for the Assembly? OAQ(3)0894(FM)

The First Minister: The Deputy First Minister and I received the report of the establishing committee on 12 March. We have accepted the recommendations in the report and hope to make an announcement on the steps that we will take to implement those recommendations early next month.

Y Prif Weinidog: Ein nod yw alinio ein hystadau gyda nodau ac amcanion corfforaethol Llywodraeth Cynulliad Cymru, gan symud swyddogaethau a'r gwasanaethau a ddarperir yn nes at ddinasyddion Cymru. Mae darparu ystâd sy'n cyflawni ar raddfa uchel a gweithleoedd modern, effeithiol gyda chyfleusterau cyhoeddus gwell yn parhau i fod yn rhan hanfodol o'n strategaeth ar gyfer y dyfodol.

Confensiwn Cymru Gyfan

C15 Lesley Griffiths: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y cynnydd at sefydlu confensiwn Cymru gyfan ar ragor o bwerau i'r Cynulliad? OAQ(3)0894(FM)

Y Prif Weinidog: Cafodd y Dirprwy Brif Weinidog a minnau adroddiad y pwylgor sefydlu ar 12 Mawrth. Yr ydym wedi derbyn yr argymhellion yn yr adroddiad, a gobeithiwn wneud cyhoeddiad am y camau nesaf a gymerwn i weithredu'r argymhellion hyn ddechrau'r mis nesaf.